**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Busnes

**National Assembly for Wales**
Business Committee

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Gorffennaf 2016

Annwyl Gadeirydd

**Datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Pwyllgor Busnes wedi dechrau trafod sut y gellir sicrhau mwy o amrywiaeth yn ystod amser y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Ysgogwyd hyn yn rhannol gan adroddiad etifeddiaeth Pwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad, a oedd yn cynnwys yr argymhelliad a ganlyn:

"Dylai'r Pwyllgor Busnes newydd ystyried amserlennu busnes mwy amrywiol yn ystod amser nad yw ar gyfer y Llywodraeth, gan gynnwys mwy o fusnes pwyllgorau i wella integreiddio rhwng y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau. Gallai mathau o fusnes gynnwys, er enghraifft, datganiadau ar ddechrau ymchwiliadau pwyllgor, adroddiadau blynyddol gan bwyllgorau, pynciau dadleuon a ddewisir gan bobl ifanc a rhanddeiliaid eraill, a chyfres o ddadleuon ar thema benodol."

Rwy'n rhannu'r farn y gellir defnyddio amser yn y Cyfarfod Llawn yn fwy effeithiol. Yn ystod tymor yr hydref, byddaf yn cyflwyno cynigion i Reolwyr Busnes eu hystyried, gyda'r bwriad o ehangu ar gyfleoedd i Aelodau graffu ar y Llywodraeth a chynrychioli eu hetholwyr.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Busnes wedi gwneud penderfyniad cynnar y byddai'n hoffi gweld mwy o integreiddio rhwng y Cyfarfod Llawn a gwaith y pwyllgorau, ac mai un ffordd o wneud hynny fyddai galw ar Gadeiryddion pwyllgorau i wneud datganiadau yn y Cyfarfod Llawn o bryd i'w gilydd ynghylch gwaith a blaenoriaethau eu pwyllgorau. Er mai rôl i'r Cadeiryddion, mewn ymgynghoriad â'u pwyllgorau, yw penderfynu pryd yr hoffent wneud datganiad, mae'r cyfleoedd yr hoffem eu hannog yn y lle cyntaf yn cynnwys dechrau ymchwiliadau, o bosibl er

mwyn helpu i lywio gwaith y pwyllgor, ar ôl gorffen gwaith dilynol, neu pan fydd pwyllgor yn ystyried ei raglen waith ar gyfer y cyfnod sydd i ddod.

Credwn y byddai datganiadau o'r fath yn adnodd defnyddiol i godi proffil gwaith pwyllgorau ymysg Aelodau eraill a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, ac yn caniatáu mwy o ymgysylltiad ag ymchwiliadau'r Pwyllgor, a dealltwriaeth o'r ymchwiliadau hyn, gan y rhai nad ydynt yn gysylltiedig â hwy yn uniongyrchol. Os defnyddir y datganiadau hyn mewn modd priodol, rydym yn hyderus y gallai datganiadau o'r fath, a'r ymatebion iddynt, fod yn ddull gwerthfawr o lywio gwaith a blaenoriaethau'r pwyllgorau. Byddai diben y datganiadau hyn, felly, yn wahanol i ddiben y dadleuon ar adroddiadau pwyllgor, sy'n nodwedd gyfarwydd o fusnes y Cynulliad yr ydym am iddi barhau.

Mae'r Pwyllgor Busnes yn cyfarfod bob wythnos i gytuno ar drefn busnes y Cynulliad, ac er y gellir gwneud datganiadau heb rybudd gyda fy nghaniatâd, byddem fel arfer yn disgwyl i unrhyw gais i neilltuo amser ddod i law o leiaf wythnos cyn gwneud y datganiad er mwyn i'r eitem ymddangos ar y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried sut y gallech chi a'ch Pwyllgor ddefnyddio datganiadau mewn Cyfarfod Llawn, a byddwn yn eich annog i gynnig datganiadau yn y dyfodol agos. Yr wyf yn ymwybodol bod nifer o bwyllgorau yn lansio ymchwiliadau newydd ac yn penderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer tymor yr hydref, felly mae'r cyfnod i ddod yn cynnig cyfle perffaith i dreialu datganiadau pwyllgor. Gobeithiaf y gallwch chwarae eich rhan mewn sicrhau llwyddiant y fenter hon.

Elin Jones

Elin Jones AC, Llywydd y Cynulliad
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes